

Cymerer, er enghraifft, yr ysgrif ar Daniel Rees. 'Roedd yn amlwg yn ieithydd tan gamp. Meddai T.G.J.: 'yr oedd yn Lladinwr hyffordd. Dysgodd Lydaweg... a bu'n ymdrawo (sic) rhywfaint ag anawsterau Gwyddeleg. Cymerai ddi-ddordeb mewn ieithoedd gwneud... *Volapuk, Nova Romana*, iaith Bolak, Esperanto ac eraill ... dysgodd Hwngareg ... Yr oedd, wrth gwrs, yn gynefin â'r ieithoedd Lladin, a llefarai Almaeneg yn ddigon rhugl.' Eithr y peth a'm trawodd fi fwyaf fu hyn: 'Yr oedd yn dra hoff o rifyddiaeth a mechaneg, a dyfeisiodd beiriant cyfrif, 'Melinrivo' oedd yr enw a roddai arno ... Bu farw a'r ddyfais heb ei chwplâu.' Meddylwch! Tybed nad ffurf gynnar ar gyfrifiadur oedd hon? Wedi'r cwbl, fel y dengys yr enw, peiriant cyfrif yw'r cyfrifiadur. Pe dygasai'r maen i'r wal, efallai y byddwn i heddiw, a gweddill y byd, yn bustachu â Melinrivo 2007 yn hytrach na Windows 1997 fel sydd gennyf.


Bywyd bach, wir!

Braint fu derbyn gwahoddiad i lansio *Bywyd Bach*, hunangofiant fy nghyfynder yr Athro Gwyn Thomas, yn y Blaenau, ein henfro, nos Wener Tachwedd 24ain 2006. Yr oedd festri capel Maenofferen gynt dan ei sang a chafwyd noson lawen a diddan fel y cofiant ei hun. Clywsom atgofion gan ddau lenor arall o fri, sef Geraint Vaughan Jones ac Eigra Lewis Roberts. Yn wylaid, ni wnaeth Gwyn ddim ond darllen ambell un o'r hanesion difyr yn ei lyfr. Cefais innau ddweud fy mhwt: a chan gofio ei gerdd enwog 'Cymylau Gwion' (yn *Croesi Traeth*), sy'n rhestru'n atgofus llysenwau ein cydysgolheigion gynt: 'Ple heno, Hymji Gym./ Ple heno'r wyt ti?/Ple, heno, Ginsi Boi/A Ger a Mycs a Gwff?' (fel y digwyddodd, 'roedd Ger a Ginsi Boi yno!) ysbrydolwyd fi i farwnadu rhai o'n hen athrawon annwyl:

*'Ple heno Ceff a Jami,
Ple heno Jonah a Gwsi,
'Rhen Foi Lat a Killicrankie,
Enwau'n hen athrawon gynt,
Lleisiau a gollwyd yn y gwynt'.*

Yma darfu'r awen, yn bennaf o ddiffyg odlau ar gyfer enwau megis Twm John a Joe Palooka. Chwarter canrif cyntaf ei oes a geir yng nghofiant Gwyn: ni fydd ail gyfrol, meddai wrthyf. Darllenais sawl cofiant, ac mae'n wir, 'rwy'n meddwl, mai bore oes yr awdur yw'r cyfnod mwyaf diddorol bob gafael. Oni bai iddo/iddi ddringo Mynydd Everest neu gyflawni gorchestion tebyg, neu gwrdd â rhesi o bobl enwog iawn, tuedda pob cofiant i fod yn rhestr o gerrig milltir digon cyfarwydd ar hynt yr awdur. Peth a'm trawodd wedyn: buasech yn disgwyl y byddai noson yn cynnwys tri llenor pwysig megis Gwyn, Geraint ac Eigra, yn haeddu rhyw sylw yn y Wasg. Na: dim siw na miw, nid yn y *Daily Post*, nid yn y *Cambrian News*, nid hyd yn oed yn *Llafar Bro*, papur lleol y Blaenau a'r cylch. Lle 'roedd eich cyhoeddusrwydd, Gwasg Gwynedd?

Cyn gadael 'Stiniog am y tro: hoffwn annog pob alltud o'r henfro i danysgrifio i'r cylchgrawn *Rhamant Bro*, cylchgrawn blynyddol Cymdeithas Hanes Bro Ffestiniog. Cyhoeddir ef ers chwarter canrif bellach, a



Bruce, Gwyn, Ginsi Boi, Nowtyn a Ger yn lansiad 'Bywyd Bach' yn y Blaenau

rhyfeddod parhaol yw'r deunydd amrywiol a diddorol a geir ym mhob rhifyn. Go brin bod gan yr un ardal o'i maint y fath drysorfa. Nid peth sych academiaidd mohono: fe gewch bron hanner can tudalen o ysgrifau a lluniau am ddim ond £2 + cludiant. Ysgrifennar at: y Br G.E.Jones, 11 Trem y Benar, Blaenau Ffestiniog LL41 3UT, ffôn (01766) 831100 neu ymholer â'r llywydd, y Br Dafydd Jones, Siop yr Hen Bost, y Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog (01766) 831802.

O dros Glawdd Offa - 1

Yn ffair lyfrau'r Bala daeth ataf wraig yn chwilio am lyfr ar T. H. Parry-Williams yn y gyfres *Bro a Bywyd*. Yr oedd y bardd yn arwr iddi, meddai, ac addewais innau chwilio am y llyfr. 'Doedd dim yn anarferol yn hyn, nes iddi roi ei henw a'i chyfeiriad: Hilda Hunter, o Amwythig. Saesnes lân loyw yw hi, a ymserchodd yng Nghymru i'r fath raddau nes ymroi o ddifrif, a hithau dros ei phedwar ugain oed, i ddysgu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl. Eisoes cyhoeddodd *Pethau Cudd* (2004), llyfryn i godi arian ar gyfer cronfa Hen Gapel John Hughes Pontrobert, a hefyd ei hunangofiant *Unto the Hills*. Bellach cyhoeddodd *Dyfal Donc* (Y Lolfa, 2006), ei hunangofiant yn Gymraeg. Gellais gywiro faddewid iddi; ac yn nes ymlaen cefais hyd i *Gyfystyron y Gymraeg*. Griffith Jones (Glan Menai) ar ei chyfer. Cyferbynnar â hyn honiad Gruffydd Robert (Milan): 'Chwi a gewch rai yn gytrym ag y gwelant afon Hafren, neu glochdai Amwythig, a chlywed Sais yn doedyd unwaith Good Morrow, a ddechreuant ollwng eu Cymraeg (dros gof, a'i doedyd yn fawr eu llediaith...)' (*Dosbarth Byrr ar y Rhann Gyntaf i Ramadeg Cymraeg*, 1567).

O Dros Glawdd Offa - 2

Yn y Cymro gwelais gais am gopi o *Oes o Fyw ar y Mynydd*, Margaret Roberts, gan ŵr o'r enw Jonathan Simcock., a dyma anfon un ato. Sais o Derby ydyw, a feistrolodd y Gymraeg. Ond nid unigolyn goleuedig mohono'n unig ydyw: mae'n aelod o Gylch Siarad Cymraeg Derby, ac yn fwy syfrdanol fyth, anfonodd gopi o *Lais y Derwent*, papur bro i ddysgwyr Canolbarth Lloegr! Yn rhifyn Hydref 2006 (Rhif 6), ceir ysgrifau ar 'Hel Achau', 'Yr Eisteddfod Genedlaethol i Ddysgwyr', 'Dros y clawdd: Dan y Dyn',

croesair, rysait, geirfa, a rhaglenni Clwb Clebran Matlock, Cymdeithas Gymreig Derby, a Chymdeithas Cymry Nottingham. Tybed a ŵyr fy nghyfaill y Dr Huw Walters am hwn? (Dylwn ddweud wrth olygydd y papur mai Derwennydd yw enw Cymraeg yr afon.) Ond o ddifrif: oni ddylai esiampl Hilda a Jonathan a'u cyd-ddysgwyr godi cywilydd, nid ar y Saeson yn ein plith yn gymaint, ag ar y 80% o'r Cymry honedig? Papur bro yn Lloegr, a sawl ardal yng Nghymru heb yr un! Byddaf yn meddwl yn aml: pa beth ar y ddaear sy'n codi ar bobl fel hyn yr ysfa i ddysgu Cymraeg? A sut, yn ymarferol, y gallem eu hybu?

Cythraul y Wasg eto fyth!

Yn sgil fy ngholofn ddiwethaf, os buoch yn chwilio'n ofer am Blas Brondanwyg (sic) a Fort Williamsborough (sic), yna na'm beier i! Nid fi ychwaith a soniodd am 'Y baner y ddraig yn chyhwan', a gwell fwasai 'Cipio pum cyfnither Gwenllian i Loegr' na'r is-bennawd trwsogl 'Pum cyfnither Gwenllian yn cael eu cipio i Loegr'.

Adlodd

Diolch i'r Br Dyfed Evans am f'atgoffa iddo ddweud eisoes mai ysgol Llidiardau yn Llŷn a fu rywbyrd yn argraffu a chyhoeddi pethau. Erys y cwestiwn: a all rhywun ddweud rhagor wrthym? A oes peth o'r cynnyrch ar gael o hyd? Diolch iddo hefyd am ddweud mai'r diweddar Elis Gwyn, y pensaer adnabyddus, a luniodd y cwpled a ddyfynnais: 'Yn gadarn yr ail-godwyd/Brondanw o'r lludw llwyd'. Cafwyd adroddiad ynghylch achlysur ail-godi Brondanw yn y *Cymro*, yn Rhagfyr 1953.

Yn ôl i Aber-ia

Mae diwrnod agored y Gymdeithas yn Aber-ia (Portmeirion, fel y mynnir ei alw) yn argoeli'n dda dros ben, gyda siaradwyr penigamp; un na chefais sgwrs ag ef ers hydoedd yw'r Parch. Towyn Jones, Caerfyrddin. Bu'n casglu llên gwerin Dyfed ers oesoedd, a daeth o hyd i ambell lyfr diarffordd iawn imi. Mae'n chwedleuwr diddan: cofiaf ef yng Ngregynog ba noson, yn codi gwallt ein pennau trwy ddweud hanes fampir yn codi o'r bedd mewn lle o'r enw Croglyn, yng Nghymbria. Tybed a fydd ei sgwrs yn ernes o gyhoeddi ei gampwaith? Gobeithio'n wir. Dewch yn llw! Mi 'ch gwela'i chi yno!